Nofio Gyda'r Llif

Ti a minnau mewn dau fyd
Mewn dau feddwl be i wneud o hyd
Ai aros am synnwyr i ennill y dydd
Neu nofio gyda'r llif.

Ti a minnau ar wahân
Fydd ddim byd eto fel y bu o'r blaen
Pen i waered aeth y byd
Wrth nofio gyda'r llif.

Un edrychiad fel deg gair
Un cyffyrddiad fel addewid daer
Byw am yr eiliad rhag colli y dydd
Gadael y glennydd
A nofio gyda'r llif.

Dwy galon yn curo fel un
Dim byd amdani ond croesi'r ffin
Gwrthod pob cyngor, a derbyn y gwir
Rhaid nofio gyda'r llif.

©Geraint Griffiths 1989.